# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

West Coast Dental Care, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 19 Mawrth 2018

Dyddiad cyhoeddi: 20 Mehefin 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78937-012-6



© Hawlfraint y Goron 2018

## Cynnwys

1. What we did ........ 5

2. Summary of our inspection ........ 6

3. What we found ........ 8

Quality of patient experience ........ 9

Delivery of safe and effective care ........ 14

Quality of management and leadership ........ 21

4. What next? ........ 23

5. How we inspect dental practices ........ 24

Appendix A – Summary of concerns resolved during the inspection ........ 25

Appendix B – Immediate improvement plan ........ 26

Appendix C – Improvement plan ........ 28

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o West Coast Dental Care, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 19 Mawrth 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod West Coast Dental Care yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol ar gyfer ei gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf ac roedd ganddo'r polisïau a'r gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwnaethom hefyd nodi bod arolygon cleifion yn cael eu darparu i oedolion a phlant.

Gwnaethom nodi bod y practis yn lân ac yn daclus a gwelsom ddogfennau oedd yn dangos bod yr offer deintyddol yn cael ei gynnal a'i wasanaethu'n rheolaidd.

Mae angen i'r practis sicrhau bod ei bolisi cwynion yn cael ei ddiweddaru ac yn cael ei arddangos ar wefan y practis.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio'n broffesiynol gyda chleifion ac yn gyfeillgar ac yn gwrtais â nhw
- Roedd y practis yn arolygu cleifion a oedd yn oedolion a'r rhai oedd o dan 18 mlwydd oed.
- Roedd yr offer deintyddol yn cael ei gynnal yn dda ac roedd yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd
- Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn ymddangos yn lân a thaclus

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod deunyddiau glanhau domestig yn cael eu storio yn ddiogel
- Sicrhau bod y polisi diogelu mewn perthynas ag amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed yn cael ei ddiweddaru

- Cael gwared â gwastraff hylendid benywaidd yn unol â rheoliadau a chanllawiau cyfredol
- Dylid cadw cofnodion cleifion yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

West Coast Dental Care provides services to patients in the Swansea area. The practice forms part of dental services provided within the area served by Abertawe Bro Morgannwg University Health Board.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys pum deintydd, un hylenydd, tair nyrs ddeintyddol, tair nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, un aelod o staff y dderbynfa ac un rheolwr practis.

Mae’r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod y practis wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion a gwelsom staff yn bod yn broffesiynol ac yn gwrtais i gleifion.

Mae'r practis yn ceisio adborth gan gleifion yn rheolaidd trwy wahodd cleifion i gynnig awgrymiadau yn y blychau a ddarperir yn y mannau aros a thrwy gwblhau arolygon cleifion, ond mae angen datblygu system ar gyfer cofnodi adborth anffurfiol/ar lafar gan gleifion.

Nododd y cleifion hynny a gwblhaodd holiaduron AGIC eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 20 o holiaduron. Roedd y rhan fwyaf o’r holiaduron a gafodd eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers dros ddwy flynedd. Roedd adborth cleifion yn yr holiaduron yn bositif ar y cyfan ac roedd y sylwadau’n cynnwys y canlynol:

> Gwasanaeth da iawn o hyd! *Mae'r staff bob amser mor hyfryd ac yn ystyried fy amserlen brysur.* Diolch i bawb.
>
> *Cafwyd triniaeth ac ystyriaeth wych.*
>
> Mae'r deintydd yn amyneddgar iawn ac mae'n esbonio triniaethau neu broblemau gyda fy nannedd yn eglur.  Mae'r staff yn y dderbynfa bob amser yn gyfeillgar. Rwy'n wir gwerthfawrogi'r ddau beth hyn.

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> Na, mae popeth yn dda. Yn cael ei redeg yn dda.

*Rwy'n fwy na hapus gyda'r gwasanaeth fel y mae. Does dim angen ei newid.*

## Cadw’ n iach

Yn y man aros, gwelsom ddetholiad bach o daflenni gwybodaeth hybu iechyd a oedd ar gael i gleifion eu darllen ac/neu i fynd â nhw adref. Roedd ystod fwy eang o daflenni hybu iechyd ar gael ym mhob ystafell triniaeth ddeintyddol. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni gwybodaeth ynghylch triniaethau a chyngor ataliol.

Nododd pob claf ond un a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad ag ef ynghylch sut i gadw ei geg a'i ddannedd yn iach.

## Gofal ag urddas

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom staff yn bod yn gwrtais wrth siarad gyda chleifion oedd yn ymweld â'r practis ac wrth siarad gyda chleifion dros y ffôn.

Os byddai angen cynnal sgwrs breifat gyda chlaf, dywedodd staff wrthym eu bod yn defnyddio ardal swyddfa oedd wedi ei lleoli y tu ôl i'r dderbynfa. Gellid gwneud galwadau ffôn o ardal y swyddfa hefyd gan gynnig preifatrwydd i'r claf.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gynnwys (cymaint a ddymunai) mewn unrhyw benderfyniad a wnaed am ei driniaeth a phan mae angen triniaeth arno, fod y tîm deintyddol yn barod i'w helpu i ddeall pob opsiwn sydd ar gael.

Dywedodd y mwyafrif o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio'n glir iddynt cyn derbyn unrhyw driniaeth, a'u bod yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Gwelsom restrau prisiau yn arddangos costau triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat yn y mannau aros ar y llawr daear a'r llawr cyntaf.

Roedd manylion y deintyddion a'u horiau agor priodol yn cael eu harddangos yn y brif fynedfa i'r practis.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg a rhai nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg) eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

Mae gan y practis wefan, sydd yn cydymffurfio â chanllawiau hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol [1] ond mae angen diweddaru'r polisi cwynion er mwyn cynnwys manylion cyswllt y bwrdd iechyd lleol.

Mae'r daflen wybodaeth i gleifion wedi'i diweddaru yn ddiweddar ac roedd ar gael yn y mannau aros. Yn ystod yr arolygiad gwelsom fod y fersiwn blaenorol yn cael ei arddangos yn y man aros ar y llawr daear a gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod pob hen fersiwn yn cael ei dynnu i lawr.

> Yr hyn y mae angen ei wella
>
> Mae angen i'r practis adolygu a diweddaru'r polisi cwynion ar ei wefan.

## Gofal amserol

Dywedodd y rhan fwyaf o’r 20 o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad i'r gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai problem ddeintyddol frys ganddynt. Roedd manylion am sut y gallai cleifion gael mynediad i ofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau yn cael eu harddangos y tu mewn a'r tu allan i'r practis. Roedd yr wybodaeth hefyd yn cael ei darparu ar neges peiriant ateb y practis.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am ei hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

---

[1] https://www.gdc-uk.org/api/files/Guidance%20on%20advertising%20(Sept%202013).pdf

## Hawliau pobl

Canfuom fod y mynediad i'r practis yn dda. Ar adeg yr arolygiad roedd gris bach wrth y brif fynedfa. Dywedwyd wrthym y byddent yn cael gwared ar y gris fel rhan o'r cynlluniau adnewyddu i ddileu'r angen am ramp. Yn y cyfamser, roedd ramp cludadwy ar gael sy'n cael ei ddefnyddio i helpu cleifion mewn cadeiriau olwyn i gael mynediad i'r practis. Roedd y dderbynfa, y man aros a'r ddwy ystafell driniaeth ar y llawr daear a gallai'r rhai ag anawsterau symudedd gael mynediad iddynt. Roedd man aros ac ystafelloedd triniaeth ychwanegol ar y llawr cyntaf.

Roedd cyfleusterau toiled ar gael i gleifion eu defnyddio ar y llawr daear gyda mynediad da a rheiliau llaw yn darparu cymorth i'r cleifion oedd ei angen. Roedd larwm cleifion a bwrdd newid cewynnau wedi eu gosod yn y toiled.

## Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i fynegi pryder neu gwyno am y gwasanaethau roeddent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar gyfer triniaeth ddeintyddol breifat a thriniaeth y GIG. Lle y bo'n berthnasol, roedd y polisi yn gydnaws â phroses cwynion "Gweithio i Wella" y GIG[2]. Nid oedd y polisi yn darparu manylion cyswllt y bwrdd iechyd lleol. Rydym yn argymell bod y polisi yn cael ei ddiweddaru i gywiro hyn. O ran triniaeth ddeintyddol breifat, nid oedd y polisi yn darparu'r amserlenni cywir i ymateb i gŵyn. Rydym yn argymell ei fod yn cael ei ddiweddaru i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008[3].

---

[2] "Gweithio i Wella" yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

[3] https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

Roedd y practis yn cynnal ffeil a oedd yn cynnwys cofnodion manwl am gwynion a dderbyniwyd a chanlyniadau.

Argymhellir bod yr holl adborth gan gleifion yn cael ei gofnodi i sicrhau bod unrhyw themâu ailadroddol yn cael eu nodi. Dywedwyd wrthym fod y practis yn casglu pryderon llafar/anffurfiol trwy ofyn i gleifion gwblhau arolwg boddhad cleifion a/neu gyflwyno sylwadau yn y blychau awgrymiadau yn y mannau aros. Rydym yn argymell bod y practis yn ystyried cadw llyfr nodiadau yn y dderbynfa i sicrhau bod adborth llafar yn cael ei gofnodi. Gwelsom fod y practis hefyd yn darparu arolwg boddhad i gleifion o dan 18 mlwydd oed ei gwblhau.  Mae'r holl arolygon ac awgrymiadau yn cael eu casglu a'u hadolygu'n fisol a lle y bo'n briodol, cymerir camau i weithredu arnynt.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis ddiwygio'i bolisi cwynion i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru (2008) ac i gynnwys manylion cyswllt y bwrdd iechyd lleol.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy’n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Gwnaethom nodi bod y cyfleusterau clinigol yn llawn offer, yn lân ac yn daclus. Gwelsom gytundebau ar waith sy’n sicrhau bod y cyfleusterau a'r amgylchedd yn ddiogel ac wedi'u cynnal yn dda.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-x yn ddiogel ac roedd tystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd.

Mae angen i'r practis sicrhau bod pob cofnod meddygol claf wedi ei gwblhau yn unol â safonau proffesiynol.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Mae'r adeilad yn ymddangos fel petai’n cael ei gynnal yn dda, gydag arwyddion o waith adnewyddu diweddar. Yn ystod yr arolygiad, cawsom glywed am gynlluniau adnewyddu pellach i wella'r dderbynfa, y man aros a'r brif fynedfa ar y llawr daear. Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth ddeintydd ola'r mannau cyhoeddus yn lân ac yn daclus. Gwnaethom nodi nad oedd y cwpwrdd ble y cedwir deunyddiau glanhau domestig yn ddiogel ac rydym yn argymell bod clo yn cael ei osod.

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy'n cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio’n ddiogel yn y

practis. Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch yr adeilad a gwnaethom nodi eu bod wedi derbyn gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn. Roedd y cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys yn weladwy.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (cartref) yn ddiogel. Ar adeg ein hymweliad, roedd cyfleusterau ar gael ar gyfer gwaredu cynhyrchion hylendid benywaidd yn y ddau doiled. Dywedwyd wrthym fod staff yn gwaredu'r cynnwys gyda'r gwastraff nad yw'n beryglus.

Mae Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992 yn nodi y dylai pob busnes ddarparu dull addas o waredu cynhyrchion glanweithiol ym mhob ystafell ymolchi i fenywod. Yn ôl Deddf Diogelu'r Amgylched 1990, mae gan bob busnes ddyletswydd gyfreithiol i reoli gwastraff ar ei safle mewn modd cywir a diogel, hyd nes y cam gwaredu terfynol. Gwnaethom argymell bod y practis yn adolygu rheoliadau cyfredol ynglŷn â gwaredu'r gwastraff yma.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002, mae'n rhaid i gyflogwyr naill ai atal neu leihau datguddiad staff i sylweddau sy'n niweidiol i'w hiechyd. Roedd gan y practis restr wirio rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a dalenni data diogelwch perthnasol a oedd yn darparu gwybodaeth am sylweddau sy'n 'beryglus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar gyfer eu defnyddio'n ddiogel mewn perthynas â sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis.

Roedd gan y practis lyfr 'Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR), a oedd yn cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Gwnaethom nodi bod poster iechyd a diogelwch yn cael ei arddangos.

Gwnaethom nodi bod y labordai deintyddol a ddefnyddiwyd gan y practis wedi cofrestru gyda'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd[4] a bod doced i labordy unigol yn cael eu defnyddio ar gyfer pob darn o

---

[4]Os byddwch yn gwerthu dyfeisiau meddygol penodol ym marchnad yr UE, rhaid eich bod chi neu eich cynrychiolydd awdurdodedig (asiant) wedi cofrestru gyda'r awdurdod cymwys (rheoleiddiwr iechyd cenedlaethol) o fewn y wladwriaeth yn yr UE ble mae gennych swyddfa neu safle busnes. Yn y DU, yr Asiantaeth Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd yw'r

waith. Er mwyn arbed amser, byddem yn argymell bod y rhifau cofrestru yn cael eu cyfuno a'u cadw ar ffeil fel bod modd cyfeirio atynt yn hawdd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen gosod clo ar ddrws y cwpwrdd sydd yn cael ei ddefnyddio i gadw deunyddiau glanhau.

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl wastraff hylendid benywaidd yn cael ei waredu yn unol â rheoliadau cyfredol.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau priodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[5].

Cynhaliwyd gwiriadau cynnal a chadw ar yr offer sterileiddio yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr a gwelsom dystiolaeth fod y llyfrau log ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio yn cael eu cynnal. Roedd gan y practis bolisi rheoli heintiau ar waith.

Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol pan oeddent yn gweithio yn yr ystafell ddadheintio.

Gwelsom dystiolaeth bod gan yr holl staff clinigol dystysgrifau yn eu ffeiliau i gadarnhau bod eu hyfforddiant ar reoli heintiau yn gyfredol.

---

awdurdod cymwys ar gyfer cofrestru dyfeisiau meddygol. Bydd yr Asiantaeth Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd ond yn cofrestru gweithgynhyrchwyr neu gynrychiolwyr awdurdodedig sydd â safle busnes yn y DU. https://www.gov.uk/guidance/register-as-a-manufacturer-to-sell-medical-devices

[5] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd y practis wedi ymgymryd ag archwiliadau rheoli heintiau fel yr argymhellir gan ganllawiau WHTM 01-05.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau i ddelio ag argyfyngau cleifion, yn cynnwys polisi dadebru oedd yn cael ei arddangos ym mhob ystafell triniaeth ddeintyddol.

Mae gan ddarparwyr gofal iechyd rwymedigaeth i ddarparu sgiliau dadebru pe bai claf yn dioddef ataliad y galon ac i sicrhau bod y staff yn cael eu hyfforddi a'u diweddaru'n rheolaidd hyd at lefel hyfrededd sy'n briodol gyfer rôl ddisgwyliedig yr unigolyn[6]. Roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant o fewn y flwyddyn ddiwethaf ar sut i fynd i'r afael ag argyfyngau meddygol a sut i berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd. Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf.

Roedd gan y practis y cyffuriau a'r offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (y DU)[7]. Rydym yn argymell bod y rhain yn cael eu storio'n ddiogel a'u bod o fewn cyrraedd yn hawdd.  Gwnaethom nodi bod gan y practis system ar waith i wirio bod cyffuriau a chyfarpar brys o fewn eu dyddiad ac yn barod i'w defnyddio.

Gwnaethom nodi bod padiau rhagnodi'n cael eu cadw'n ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau bod y pecyn a'r cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel.

[6] https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-dental-care-quality-standards-for-cpr/

[7] Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy’n agored i niwed a'u bod yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol. Roedd y polisi ar y cyd yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ychwanegol ynglŷn â diogelu plant sy’n agored i niwed ond prin oedd y wybodaeth ategol a gafwyd am ddiogelu oedolion sy’n agored i niwed. Rydym yn argymell bod y polisi hwn yn cael ei adolygu a bod canllawiau ychwanegol a manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol yn cael eu darparu. Roedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y ddwy agwedd ar hyfforddiant, h.y. diogelu plant a diogelu oedolion sy’n agored i niwed. Yr unig eithriad oedd nyrs ddeintyddol oedd i ffwrdd ar absenoldeb mamolaeth. Dywedwyd wrthym y byddai hyfforddiant ar ddiogelu oedolion sy’n agored i niwed yn cael ei drefnu ar ei chyfer pan fyddai'n dychwelyd.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn yn y practis. Roedd gan bob aelod o staff dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis adolygu ei bolisi diogelu i sicrhau bod gwybodaeth ddigonol a chanllawiau ategol yn cael eu darparu mewn perthynas ag amddiffyn oedolion sy’n agored i niwed.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân ac yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd y cyfarpar radiolegol yn gweithio'n dda ac roedd y mannau a reolir wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennau'n dangos bod y peiriannau pelydr-x yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal a'i chadw ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol.

Roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[8] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.[9]

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Mae gan y practis bolisi sicrwydd ansawdd. Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis raglen gynhwysfawr o archwiliadau ar waith, yn cynnwys boddhad cleifion, rheoli heintiau, atgyfeiriadau, mewnblaniadau, rhagnodi gwrthficrobaidd, cofnodion clinigol a radiograffau.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Yn ychwanegol i'r archwiliadau uchod, mae'r deintyddion yn cwrdd yn rheolaidd ar gyfer adolygiadau cymheiriaid. Dywedwyd wrthym fod y practis hefyd wedi ymgymryd â Hunanasesiad Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yn 2012 a 2014.

Efallai yr hoffai'r practis hefyd ystyried gwneud cais ar gyfer offeryn datblygu ymarfer deintyddol y Matrics Aeddfedrwydd.[10]. Offeryn datblygu ymarfer tîm deintyddol yw'r Matrics Aeddfedrwydd i alluogi'r tîm i ganolbwyntio ar sut maent yn gweithio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai’r practis ystyried gwneud cais ar gyfer offeryn datblygu ymarfer deintyddol y Matrics Aeddfedrwydd.

---

8 Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

9 http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

10 https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis gofnodion electronig, a gwnaethom nodi bod y rhain yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Gwnaed copïau wrth gefn o'r ffeiliau electronig yn rheolaidd.

Roedd gan y practis nifer o bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith, gan gynnwys polisïau diogelu data..

## Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Gwelsom fod y practis yn cynnal cofnodion o safon uchel ar y cyfan, ond roedd anghysondebau mewn ambell achos, sef:

- Tystiolaeth wael o ddarparu cyngor ar roi'r gorau i ysmygu ac alcohol.
- Tystiolaeth wael o gynnal trefniadau sgrinio canser.
- Dylid adolygu hanesion meddygol a'u diweddaru lle bo'n briodol yn unol â chanllawiau.
- Dylid cyflawni dull siartio chwe phwynt pan gofnodwyd lefelau Archwiliad Periodontol Sylfaenol o dri.[11]
- Mewn un achos, ni chafodd diweddariad i gynllun triniaeth ei lofnodi.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau ei fod yn cwblhau cofnodion cleifion ar bob ymweliad gan y claf yn unol â chanllawiau'r Gyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol ar archwiliadau clinigol a chadw cofnodion.

---

[11] Mae asesiad gofalus o'r meinweoedd periodontol yn elfen hanfodol o reoli cleifion. Defnyddir yr Archwiliad Periodontol Sylfaenol (BPE) fel dull sgrinio sylfaenol i wirio statws periodontol claf.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Yn ystod yr arolygiad, canfuom dystiolaeth o arweinyddiaeth a llinellau atebolrwydd da. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd.

Roedd gweithdrefnau rheoli da ar waith er budd y staff, gan gynnwys arfarniadau staff a chyfarfodydd staff rheolaidd a gofnodwyd. Gwelsom fod amrediad cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sydd yn berchen ar West Coast Dental Care. Rheolwr y practis sy'n gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd a gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth gref. Roedd staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y practis wedi'i drefnu'n dda, a gwelwyd gwaith cadw cofnodion da ym mhob maes. Gwelsom fod amrediad eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwelsom dystiolaeth bod y polisïau yn cael eu hadolygu'n flynyddol gan reolwr y practis. Gwnaethom nodi eu bod wedi cael eu darllen gan staff a'u bod yn eu deall.

### Staff ac adnoddau

#### Gweithlu

Dywedodd staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y practis a gwelsom berthynas gref rhwng holl staff y practis. Gwnaethom nodi bod gan bob aelod o staff gytundeb gwaith a gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau'r staff fod rhaglen sefydlu ar waith yn y practis. Roedd hefyd raglen arfarniadau staff a chynlluniau datblygiad personol, ar gyfer staff clinigol a'r rhai nad ydynt yn glinigol. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant

ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac roedd hyn yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd ac mae cofnodion yn cael eu llunio a'u harddangos ar hysbysfwrdd y staff. Roedd y cofnodion yn dangos bod y cyfarfodydd yn rhoi cyfle i'r staff ddysgu oddi wrth ei gilydd. Yn ogystal, roedd y practis wedi trefnu sesiynau dysgu dros ginio ar nifer o faterion yn cynnwys y Ddeddf Diogelu Data ac orthodonteg.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar bob aelod o staff clinigol a’r rhai hynny nad ydynt yn glinigol.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod gan bob un yswiriant indemniad priodol. Mae Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 yn ei gwneud yn ofynnol bod tystysgrifau cofrestru gwreiddiol yn cael eu harddangos. Ar adeg yr arolygiad, dim ond llungopïau oedd yn cael eu harddangos yn yr ystafelloedd triniaeth ddeintyddol. Mae angen i'r practis sicrhau bod tystysgrifau cofrestru gwreiddiol yn cael eu harddangos ac nid llungopïau nes bod y practis yn cwblhau ei gofrestriad yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 sy’n dod i rym ar 1 Ebrill 2018.

Mae angen imiwneiddio staff clinigol rhag hepatitis B er mwyn diogelu'r cleifion a'u hunain rhag heintiau. Roedd y practis yn darparu tystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o staff clinigol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai’r deintyddion  arddangos eu tystysgrifau cofrestru gwreiddiol gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion ac uwch gyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 <http://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardsen.pdf>. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011 <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made>. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 <http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3232/contents/made>, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/contents/made>, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis 'Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol <https://www.gdc-uk.org/professionals/standards>.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## **Atodiad A** – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: West Coast Dental Care

## Dyddiad yr arolygiad: 19 Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion lle'r oedd angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: West Coast Dental Care

## Dyddiad yr arolygiad: 19 Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae angen i'r practis adolygu a diweddaru'r polisi cwynion sydd yn cael ei arddangos ar ei wefan. | 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol | Rydym wedi gofyn i gynllunydd y wefan ychwanegu cyfeiriad y Bwrdd Iechyd Lleol yn adran cwynion y wefan. | Martyn Thomas (perchennog y practis) | Un wythnos |
| Dylai'r practis ddiwygio ei bolisi cwynion i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008 ac i gynnwys manylion cyswllt y bwrdd iechyd lleol. | 6.3 Gwrando a dysgu o adborth | Rydym wedi diwygio'r polisi cwynion er mwyn cynnwys cyfeiriad y bwrdd iechyd lleol ac rydym wedi cynnwys yr amserlenni cywir yn unol â'r rheoliadau. | Martyn Thomas (perchennog y practis) | Cwblhawyd eisoes |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylai'r practis osod clo ar ddrws y cwpwrdd sydd yn cael ei ddefnyddio i gadw deunyddiau | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd | Rydym wedi trefnu bod peiriannydd cynnal a chadw'r practis yn gosod clo | Martyn Thomas | Un mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| glanhau. | a diogelwch | bysellbad ar ddrws y cwpwrdd glanhau | (perchennog y practis) | |
| Dylai'r practis sicrhau bod yr holl wastraff hylendid benywaidd yn cael ei waredu yn unol â rheoliadau cyfredol. | | Rydym wedi ychwanegu biniau gwastraff hylendid benywaidd at gytundeb ein casglwyr gwastraff ar gyfer y ddau doiled yn unol â'r rheoliadau cyfredol | Martyn Thomas (perchennog y practis) | Cwblhawyd eisoes |
| Dylai'r practis sicrhau bod ei becyn a chyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel. | 2.6 Rheoli Meddyginiaethau | Rydym wedi trefnu bod peiriannydd cynnal a chadw'r practis yn gosod clo bysellbad ar y cwpwrdd storio offer meddygol brys | Martyn Thomas (perchennog y practis) | Un mis |
| Dylai'r practis adolygu ei bolisi diogelu i sicrhau bod digon o wybodaeth a chanllawiau ategol yn cael eu darparu mewn perthynas ag oedolion sy'n agored i niwed. | 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl | Rydym wedi bod mewn cysylltiad â Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe ac maen nhw wedi darparu Siart llif Diogelu Oedolion sy'n cynnwys cyngor priodol a rhifau ffôn lleol rhag ofn bod unrhyw bryder. Mae hyn wedi cael ei drafod gyda'r tîm ac mae ar gael ar hysbysfwrdd y staff. | Lucy Thomas (Rheolwr y practis) | Cwblhawyd eisoes |
| Dylai'r practis ystyried gwneud cais ar gyfer offeryn datblygu ymarfer deintyddol y Matrics | 3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac | Rydym wedi edrych ar wefan Ôl-radd Deoniaeth Cymru ac wedi casglu rhywfaint o wybodaeth am y Matrics | Martyn Thomas (Rheolwr y | Tri mis |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Aeddfedrwydd. | Arloesedd | Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth a byddwn yn astudio hyn yn fanylach yn ystod y misoedd nesaf. | practis) | |
| Dylai’r practis sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf yn unol â chanllawiau a ddarperir gan y Gyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol ynglŷn ag archwiliadau clinigol a chadw cofnodion. | 3.5 Cadw cofnodion | Rydym wedi cael cyfarfod staff ac rydym wedi ystyried yr angen i sicrhau cysondeb gwell rhwng clinigwyr mewn perthynas ag agweddau penodol ar gadw cofnodion a rhoi cyngor i gleifion - yn bennaf, rhoi’r gorau i ysmygu ac alcohol. Rydym wedi safoni ein templedi ar gyfer cadw cofnodion gyda phob clinigwr er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei ymgorffori’n gyffredinol yn y practis. Rydym hefyd wedi ystyried canllawiau newydd y Gyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol ar gadw cofnodion a gafodd eu diweddaru yn 2016 er mwyn cael sicrwydd ynglŷn â pha elfennau o gadw cofnodion sy’n hanfodol, yn amodol neu y dylid ymgyrraedd atynt. Rydym wedi trefnu y bydd y mwyafrif o'r tîm yn mynychu cwrs ar roi’r gorau i ysmygu ym mis Mehefin. | Martyn Thomas (Rheolwr y practis) | Cwblhawyd eisoes; cwrs ym mis Mehefin |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dylai’r deintyddion arddangos eu tystysgrifau cofrestru gwreiddiol gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. | 7.1 Gweithlu | Yn fuan ar ôl yr arolygiad, cafodd cais y practis i gofrestru gydag AGIC o dan y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 newydd ei dderbyn. Bydd y practis nawr yn arddangos tystysgrifau gwreiddiol Martyn Thomas fel y Rheolwr Cofrestredig a West Coast Dental Care fel y Darparwr Cofrestredig. | Martyn Thomas<br>(perchennog y practis) | Cwblhawyd eisoes ac mae tystysgrifau gwreiddiol newydd yn cael eu harddangos. |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras):Martyn Thomas

## Swydd: Perchennog a rheolwr y practis

## Dyddiad:25 Ebrill 2018